

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Chwefror 3ydd, 2015

Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts (is gadeirydd), Alan Jones Evans, Cyngorydd Gwynedd, Huw Antur, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1396 Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones a Heledd Jones.

1397 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1398 Nid oedd datganiadau buddiant.

1399 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 6ed 2015.

1400 Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd ar yr Agenda.

1401 Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir. Soniodd yn benodol am y datblygiadau arfaethedig ar safle Ysgol y Berwyn sydd wedi derbyn sêl bendith y Llywodraeth. Roedd sicrwydd o dan y cynllun am barhad y tair ysgol gynradd wledig o dan un corff llywodraethol.

1402 **Y Noson Goffi:** Bydd "Criw ar y Naw" yn diddanu yn y Noson Goffi ar Fawrth 10fed am 7.30. Cytunwyd i ofyn i Sefydliad y Merched a Merched y Wawr arlwygo yn y modd arferol. Dosbarthwyd 6 tocyn yr un i'w gwerthu am £5 a chytunodd y Cyngorwyr i gyfrannu £6. Bydd croeso i blant dalu £1 wrth y drws.

1403 Materion Eiddo'r Cyngor

- i. Cut yr hers: derbyniwyd llythyr oddi wrth y sawl sydd yn ei rentu yn bresennol nad oeddent yn dymuno parhau gyda'r trefniant o rentu. Cytunwyd i anfon atynt gyda manylion o'r cyfnod diweddar o rent. Cytunwyd i ofyn i berchnogion Hen Dŷ'r Ysgol a fyddai ganddynt ddiddordeb yn ei brynu. Bydd mater dyfodol y cut yn cael ystyriaeth bellach yn y cyfarfod nesaf.
- ii. Y fynwent: Cytunwyd i Glerc y Fynwent anfon at Gontractwyr ac Ymgymerydd lleol yn eu gwahodd i gynnig eu henwau a manylion eu ffioedd ar gyfer torri beddau ym mynwent y Cyngor Cymuned. Cytunwyd i roi hysbyseb i'r perwyl hwn yn "Y Cyfnod". Gofynnwyd i Glerc y Fynwent baratoi taflen ar gyfer anfonebu Ymgymerydd, a'i thrafod gyda'r Archwilydd mewnol. Cytunwyd i roi mater y groes bren sydd wedi ei gosod yn y fynwent ar Agenda'r mis nesaf.
- iii. Toiledau Cyhoeddus: nid oes gwybodaeth ar hyn o bryd am grant i uwchraddio'r toiledau. Ar ôl derbyn manylion trwy Huw Antur, cytunwyd i ofyn i Mr Aled Richards bwrcasu a gosod y ddyfais angenrheidiol, gan ddiolch unwaith eto i Mr Richards am ei with trylwyr.

1404 Materion ariannol

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

- iii. Nodwyd mai'r dyddiad ar gyfer derbyn ceisiadau am gefnogaeth ariannol yw 1/3/15, i'w trafod yng nghyfarfod mis Mawrth. Nodwyd yr angen am adroddiad ar wariant unrhyw grant a dderbyniwyd llynedd, ynghyd â mantolen ddiweddar.

1405 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- i. Mae Cyngorydd Gwynedd wedi trafod y mater o ddiogelwch wrth droi am Gynllwyd gyda'r Swyddog perthnasol a fydd yn ymweld â'r safle ar gyfer asesu'r sefyllfa.
- ii. Penantlliw: Adroddodd y Cyngorydd fod problem blerwch wrth y biniau ar waelod ffordd Bryncaled bellach wedi ei datrys. Derbyniwyd sawl sylw gan aelodau o'r cyhoedd ei bod ar hyn o bryd yn anodd cael lle i barcio wrth y Bont Newydd dros afon Lliw, ac y gall hyn effeithio ar y sawl sy'n dymuno ymweld â'r Castell neu gerdded llwybrau. Addawodd y Cyngorydd Sir y byddai yn holi swyddogion am berchnogaeth y darnau tir bob ochr i'r bont.
- iii. Cytunwyd i anfon at ein Aelod Cynulliad i ddiolch iddo am ei holl waith hyd yn hyn ym mater darpariaeth i gleifion, a hefyd i dynnu ei sylw at y gofid pan fo claf yn gorfod treulio amser maith mewn canolfan bell ac yn benodol at y diffyg mewn darpariaeth fwy lleol.

1406 Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Mae gwaith ar ran Cyngor Gwynedd yn parhau'r un fath gan fod y Cyngor ar hyn o bryd yn edrych ar fodelau gwahanol ar gyfer datganoli gwasanaethau lleol. Cytunwyd i'r Cadeirydd arwyddo'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd am flwyddyn eto.

Mae trafodaeth yn cael ei chynnal gyda Chyngor Gwynedd parthed prydles yr Henblas. Mae Swyddfa ar gael ar hyn o bryd yn yr Henblas i'w rhentu, ac mae'r defnydd o'r mannau cyfarfod yn gyson iawn. Mae trafodaethau yn digwydd am uwchraddio'r trydydd llawr.

Mae'r Cytundeb gyda Pharc Cenedlaethol Eryri yn cael sylw ar hyn o bryd gan ei bod yn ddwy flynedd ers y tro cyntaf yr arwyddwyd y Cytundeb.

Cytunwyd i wneud gwaith ar Lwybr y Ceir i geisio lleihau tyfiant y mwsogl.

1407 Gohebiaeth:

Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am hyfforddiant ar Gyllid ym mis Mai yn Llandrindod a chytunodd Huw Antur i ystyried cynrychioli'r Cyngor yno.

Llywodraeth Cymru: Cafwyd trafodaeth fywiog ar Bapur Gwyn y Llywodraeth ar ddemocratiaeth leol a chytunwyd i ofyn i Bartneriaeth Penllyn drefnu i berson hyddysg yn y maes, megis Dyfed Edwards, arweinydd Cyngor Gwynedd roi arweiniad i gynghorwyr lleol ar gynnwys a goblygiadau'r Papur Gwyn.